TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

ILM Award in Leadership and Management Level 3

Yn gryno

Dyma gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol, a'i fwriad y meithrin sgiliau rheoli craidd y dysgwyr gyda hyfforddiant ymarferol, cyfranogol sy'n cysylltu'n ôl â'r gweithle. Bydd y cyrsiau'n cael eu haddysgu gan diwtoriaid profiadol sydd wedi bod mewn swyddi rheoli eu hunain.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...pawb sydd â chyfrifoldebau rheoli ond dim hyfforddiant ffurfiol, ac sydd o ddifrif ynglyn â meithrin eu galluoedd.

...arweinwyr tîm sy'n awyddus i symud i'r lefel reoli nesaf.

...rheolwyr sydd angen tywys pobl trwy newid sefydliadol, toriadau yn y gyllideb neu bwysau o fath arall.

Cynnwys y cwrs

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd tiwtoriaid y cwrs yn archwilio'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sy'n angenrheidiol ar gyfer arwain a rheoli mewn modd effeithiol, a hefyd bydd y dysgwyr yn mynd i'r afael ag asesiadau er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddysgant yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r gweithle. Ar ddiwedd y cwrs, bydd y dysgwyr:

wedi dysgu amrywiaeth o sgiliau rheoli allweddol ac wedi'u rhoi ar waith
wedi meithrin eu galluoedd arwain – a byddant yn gallu ysgogi ac ennyn diddordeb eu tîm a rheoli perthnasoedd yn hyderus
yn is-reolwyr mwy effeithiol a hyderus
yn deall sut i ysgogi er mwyn gwella perfformiad

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, bydd y dysgwyr yn ennill Dyfarniad Lefel 3 y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

Gofynion Mynediad

Ni cheir unrhyw ofynion mynediad ffurfiol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ar ôl gorffen y cwrs hwn, bydd modd i'r dysgwyr gamu yn eu blaen at Ddyfarniad Lefel 5 ILM mewn Sgiliau Arwain a Rheoli neu Ddiploma NVQ Lefel 3, Lefel 5 neu Lefel 7 mewn Rheolaeth.